

TUAG AT ECONOMI NATUR-BOSITIF ERBYN 2030

Barnwyd mai newid hinsawdd a chwalu ecosystemau yw'r bygythiadau mwyaf i economïau'r byd dros y deng mlynedd nesaf¹. Cyn cynnal COP15 y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol eleni, mae mudiadau ar draws Cymru'n cefnogi'r alwad ryngwladol am nod byd-eang newydd dros natur – i fod yn Natur-Bositif erbyn 2030. I wneud hyn, bydd angen buddsoddi yn y mesurau iawn i atal a dechrau gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030 gan dorri llwybr i weld natur yn ffynnu erbyn 2050. Er mwyn darparu dyfodol Natur-Bositif yn ogystal â Sero-Net, mae angen gweithredu ymroddedig gan ein gwahanol lywodraethau.

Crynodeb

Mae'r papur canlynol yn cyflwyno cyfres o argymhellion polisi ar gyfer darparu Economi Natur-Bositif:

- Galluogi busnesau Cymru i ffynnu mewn Economi Natur-Bositif drwy gynorthwyo busnesau i ddod yn arweinwyr mewn atebolrwydd hinsawdd a natur a chwarae rôl flaenllaw mewn darparu dyfodol natur-bositif i Gymru ([tudalen 2](#))
- Datblygu fframwaith polisi clir ar gyfer buddsoddiad preifat mewn natur, wedi'i gefnogi gan safonau a rheolau marchnad cynhwysfawr ([tudalen 3](#))
- Sefydlu Cymru fel gwlad sy'n arloesi mewn adfer natur a sbarduno pontio teg tuag at weithlu gwyrdd drwy gefnogi Gwasanaeth Natur Cenedlaethol ([tudalen 4](#))

Rhagarweiniad: Pontio at Economi Natur-Bositif

Mae mwy na hanner holl GDP y byd – gwerth \$44 triliwn – erbyn heddiw'n wynebu risg oddi wrth golledion natur oherwydd bod busnesau'n dibynnu ar natur.² Yng Nghymru, dangosodd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol duedd gyffredinol o "ddirywiad difrifol" sy'n adlewyrchu'r sefyllfa fyd-eang a'r argyfwng natur sydd wedi'i gydnabod

¹ [Adroddiad Risg Byd-Eang Fforwm Economaidd y Byd](#)

² [Cyfres Adroddiadau Economi Natur Newydd \(NNER\) gan Fforwm Economaidd y Byd - Nature Risk Rising](#).

yn rhyngwladol. Gwelodd y ddegawd ddiwethaf weithredu ymroddedig gan lywodraeth a busnesau i fynd i'r afael â newid hinsawdd ond mae angen gweithredu yr un mor ymroddedig a chyfochrog i atal chwalu ecosystemau a sicrhau economi Natur-Bositif yn ogystal â Sero-Net.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi cydnabod nad yw lles cymdeithasol ac amgylcheddol yn bethau i'w cyfnewid am ffyniant economaidd ond yn gwbl sylfaenol iddo. Mae angen fframwaith clir ar Gymru i ateb dros werth natur mewn ffordd ystyrlon er mwyn rhoi cyfeiriad clir i lywodraeth deithio ynddo ynghyd ag arweiniad hirdymor i fusnesau fel y gallwn, gyda'n gilydd, wrthdroi'r dirywiad mewn natur a harneisio'r potensial economaidd o fuddsoddi mewn byd naturiol sy'n ffynnu.

Gwerthfawrogi bioamrywiaeth mewn busnes³

Targedau adfer natur

Yn union fel y mae'r gydweledigaeth o Sero-Net wedi sefydlu fframwaith modern ar gyfer datblygiad economaidd o fewn ffiniau ein planed, bydd hefyd angen i bolisiau a deddfwriaeth newydd osod ffiniau ar gyfer cyflawni economi Natur-Bositif. Cyn COP15 y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol eleni, mae mudiadau ar draws Cymru'n cefnogi'r alwad ryngwladol am nod byd-eang newydd dros natur - i fod yn Natur-Bositif erbyn 2030. I wneud hyn, bydd angen buddsoddi yn y mesurau iawn i atal a dechrau gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030 gan dorri llwybr i weld natur yn ffynnu erbyn 2050.

Fel gyda thargedau hinsawdd, bydd angen i'r llywodraeth gefnogi a gyrru'r weledigaeth hon i ymgorffori targed natur-bositif, ynghyd ag ymrwymiad Cymru i fod yn Sero-Net, mewn deddf gwlad. Rydym felly'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno targedau cyfreithiol ar gyfer adfer natur, yn unol â datganiad argyfwng natur y Senedd.

Bydd angen i fusnesau gysoni eu harferion â gweledigaeth Natur-Bositif, ochr yn ochr â'r weledigaeth Sero-Net. Bydd felly angen gosod targedau mewnol wedi'u cefnogi gan fesuriadau mewnol, yn ogystal â fframweithiau datgelu. Bydd fframwaith cryf o dargedau hirdymor,

³ [WEF, The Future of Nature and Business](#)

wedi'u cefnogi gan fesurau interim, yn rhoi sicrwydd a chyfeiriad clir i fusnesau gan sbarduno busnesau ffyniannus i wneud mwy na chyflwyno mesurau gorfodol a sicrhau nad yw'r 'busnes fel arfer' newydd mwyach yn andwyol i natur ond yn cyfrannu at ei hadferiad.⁴

Argymhelliad Polisi 1: Cynorthwyo i gyrraedd y Targedau Adfer Natur drwy gyflwyno Menter Busnesau Natur-Bositif i ddatblygu canllawiau a rhoi cymorth i fusnesau ar sut i gyfrannu at adfer natur.

Tasglu Datgeliadau Ariannol Cysylltiedig â Natur

Bydd angen i unrhyw fframwaith cryf o dargedau adfer natur gael ei gefnogi gan barodrydd i wneud datgeliadau ariannol ar ba weithgareddau sy'n rhoi natur yn y fantol a rhoi dealltwriaeth fwy manwl o'r gwahanol beryglon i fusnesau ar draws gwahanol senarios colledion bioamrywiaeth yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol bwysig cyflwyno fframwaith datgeliadau hinsawdd a natur i roi gymaint o eglurder ac arweiniad â phosib i fusnesau. Sefydlwyd Tasglu Datgeliadau Ariannol Cysylltiedig â Natur ('TFNS') y DU i gyd-fynd â'r ymdrechion cyfochrog ar ddatgeliadau gorfodol gan fusnesau ar gyfer eu hallyriadau carbon.

Mae'r Aldersgate Group wedi dweud y dylai llywodraethau'r DU roi arweiniad clir ar oblygiadau unrhyw reolau datgelu gorfodol, yng nghyswllt hinsawdd a natur, annog busnesau i adrodd yn wirfoddol a thywys y ffordd tuag at reolau datgelu gorfodol ynghyd â chynorthwyo datblygu fframwaith tryloyw i fesur natur ac adnabod unrhyw gyd-ddibyniaeth rhwng gweithgareddau busnes a bioamrywiaeth.⁵

Argymhelliad Polisi 2: Sicrhau bod busnesau Cymru sy'n dod o dan gylch gwaith y TFND yn cael eu cefnogi i gyflawni'r gofynion a osodwyd ar gyfer y Tasglu.

Atebion drwy Natur⁶

Er mwyn cyflawni dyfodol Sero-Net a Natur-Bositif, bydd angen buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith carbon isel a phrosiectau adfer natur. Dangosodd adroddiad newydd gan yr RSPB beth yw potensial economaidd cyflwyno atebion drwy natur ar draws y DU: mae pob punt a fuddsoddir mewn mawndir, morfa heli a choetir yn creu £4.26, £2.48 a

⁴ [Boston Consulting Group, The Biodiversity Crisis is a Business Crisis](#)

⁵ Aldersgate Group, [Financing the Future](#)

⁶ [Atebion drwy Natur - Astudiaethau Achos yr RSPB](#)

£2.79 mewn budd economaidd a chymdeithasol.⁷ Bydd yr atebion drwy natur hyn yn chwarae rôl greiddiol mewn lliniaru newid hinsawdd drwy ddal a storio carbon gan addasu i effaith newid hinsawdd, er enghraifft drwy greu amddiffynfeydd llifogydd.

Gallai datblygu marchnadoedd carbon drwy natur hefyd greu incwm sylweddol i dirfeddianwyr a rheolwyr tir;⁸ amcangyfrifir bod atafaelu carbon yng Nghymru yn werth £6.6m y flwyddyn a disgwylir i'r gwerth hwn gynyddu'n sylweddol wrth i brisiau carbon godi. Bydd adfer y cynefinoedd dal a storio carbon hyn hefyd yn datblygu sgiliau a chreu swyddi gwyrdd newydd - wele [ATODIAD 1](#).

Mae'r budd a gynhrychir o fuddsoddi mewn natur felly'n dda iawn a dylid gwneud ymdrechion penodol i gau'r bwlch buddsoddi mewn cyfalaf naturiol. Yn y lle cyntaf, dylid strwythuro buddsoddiad cyhoeddus yn yr amgylchedd naturiol ar sail nod hirdymor o gyfuno ac 'allwthio' buddsoddiad preifat yn gyfalaf naturiol a chynyddu, yn y pen draw, faint o gyllid sydd ar gael i gyflwyno prosiectau adfer natur ar raddfa ehangach.⁹

Bydd angen canllawiau a fframwaith rheoleiddio cryf gan lywodraeth i greu gweledigaeth glir i oresgyn y rhwystrau marchnad presennol a helpu i godi safonau'r farchnad i gynorthwyo busnesau i fuddsoddi.

Mae FinanceEarth yn cyflwyno'r argymhellion polisi canlynol er mwyn gallu cyflawni hyn:

Argymhelliad Polisi 3: Datblygu fframwaith polisi clir i fusnesau preifat gael buddsoddi mewn natur, wedi'i ategu gan safonau a rheolau marchnad cynhwysfawr.

Argymhelliad Polisi 4: Cefnogi datblygu modelau busnes ar gyfer buddsoddi mewn natur¹⁰.

⁷ RSPB a Cambridge Econometrics, [Economic costs and benefits of nature-based solutions](#)

⁸ [Amcangyfrif potensial dal a storio carbon amgylchedd morol Cymru](#)

⁹ Aldersgate Group, [Financing the Future](#)

¹⁰ FinanceEarth 2021, [Financing UK Nature Recovery](#)

Swyddi Gwyrdd ac Uwchsgilio i greu Dyfodol Natur-Bositif

Swyddi Gwyrdd

Yn ôl y TUC, gallai hyd at 4,000 o swyddi'n ymwneud â gwelliannau tir, coedwigaeth ac amaethyddol gael eu creu yng Nghymru dros ddwy flynedd¹¹, gyda phapur diweddar gan yr RSPB yn dweud y gallai buddsoddi mewn natur, gan gynnwys adfer a chreu cynefinoedd blaenoriaeth, cynllun datblygu twristiaeth drwy natur, a chreu coetiroedd a mannau gwyrdd trefol, gefnogi bron i 7,000 o swyddi FTE yng Nghymru dros 10 mlynedd.

Roedd yr adroddiad yn nodi, er mwyn cwrdd â'n blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd naturiol a chyflwyno atebion hinsawdd drwy natur, bydd angen buddsoddi £68m y flwyddyn dros y 10 mlynedd nesaf. Er bod hyn ond yn un elfen o'r buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau adferiad natur llawn yng Nghymru, ar dir a môr¹², gallai'r buddsoddiad hwn yn unig greu mil o Swyddi Gwyrdd newydd mewn adfer a chreu cynefinoedd ynghyd â swyddi ychwanegol i roi cyngor i dirfeddianwyr a monitro cynefinoedd a rhywogaethau.

Y Bwlch Sgiliau Adfer Natur

Roedd adroddiad gan y Sefydliad Economeg Newydd i Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydbwyso nifer y swyddi presennol mewn sectorau gwyrdd allweddol yn erbyn nifer y swyddi newydd a awgrymir gan y TUC ac yn disgrifio'r bwlch sgiliau o ran gallu cyflawni hyn. Casglodd yr adroddiad er mae'n debyg y bydd cynnydd sylweddol mewn swyddi rheoli'r amgylchedd, a photensial i ehangu nifer y prentisiaethau perthnasol yn y sector, mae nifer y prentisiaethau ar hyn o bryd yn parhau i fod yn isel ar rhwng 50-120 y flwyddyn, sy'n dangos bwlch sgiliau amlwg¹³ - wele ATODIAD 2.

Bydd felly angen uwchsgilio ac ailsgilio sylweddol os am greu gweithlu i ateb yr her o sefydlu economi Sero-Net a Natur-Bositif. Bydd hefyd angen swyddi amgylcheddol a chadwraeth medrus i adfer dalfeydd carbon naturiol (er enghraifft mawndir, morfa heli neu goetir fel y disgrifiwyd

¹¹ Y pecyn o fuddsoddiad gwyrdd a gynigiwyd gan [TUC Cymru fel rhan o ymchwil gan Transition Economies](#) yn Awst 2020;

¹² Matt Rayment 2019, adroddiad i'r RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaethau Natur, '[Paying for public good from land management](#)'

¹³ Y Sefydliad Economeg Newydd 2021, '[Skills Through Crisis: Upskilling and \(Re\)Training for a Green Recovery in Wales](#)'

uchod). Bydd angen mwy o sgiliau amaeth-goedwigaeth, coedwigaeth ynghyd â sgiliau rheoli tir amgylcheddol eraill i blannu a rheoli mwy o fforestydd. Bydd hefyd angen swyddi newydd i roi cyngor ac arweiniad ac i helpu i gyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd Cymru.

Gwasanaeth Natur Cenedlaethol

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, daeth dros gant o randdeiliaid ledled Cymru at ei gilydd i ddatblygu cynigion ar gyfer adfer natur a chyflwyno llwybrau newydd i greu swyddi a sgiliau gwyrdd drwy sefydlu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol i Gymru.

Ynghyd â buddsoddi mewn adfer natur, byddai'r Gwasanaeth Natur newydd yn creu swyddi a sgiliau gwyrdd, yn darparu amddiffynfeydd llifogydd naturiol newydd ac yn ail-greu amgylchedd naturiol Cymru i adfer bywyd gwylt ac adfywio dalfeydd carbon gan sicrhau y gallwn bontio'n llwyddiannus tuag at economi sero-net, natur-bositif.

Mae'r cynigion diweddaraf ar gyfer NNS yn rhagweld y byddai Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn un o'r rhai cyntaf i'w fabwysiadu. Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnig cyfle pwerus i dreialu ac arddangos swyddi gwyrdd mewn ardal a fyddai'n ffynnu o'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Argymhelliad Polisi 5: Buddsoddi mewn swyddi gwyrdd i adfer ein hamgylchedd naturiol drwy gefnogi Parc Rhanbarthol y Cymoedd i ddod yn un o'r rhai cyntaf i fabwysiadu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru.

Argymhelliad Polisi 6: Sefydlu Cymru fel gwlad fydd yn arloesi mewn adfer natur a datgarboneiddio drwy ddatblygu cymhwyster newydd, ynghlwm wrth Wasanaeth Natur Cenedlaethol, sy'n cefnogi hyfforddiant ac ail-hyfforddi a dysgu gydol oes drwy ddull ar-y-cyd o weithredu rhwng y llywodraeth a'r sector preifat.

ATODIAD 1: ATEBION DRWY NATUR A PHOTENSIAL CREU SWYDDI – Y DU

Drwy gymharu gwerth cost a budd adfer **mawndiroedd**, lluniwyd cymhareb cost a budd o 4.62 a gasglodd am bob punt a fyddai'n cael ei buddsoddi mewn adfer y gellir disgwyl gweld ailfuddsoddiad o £4.62 mewn buddiannau economaidd a chymdeithasol. Disgwylir i'r rhag-

fuddsoddiad cyfalaf greu tua thair swydd newydd am bob 100 hectar o fawndir sy'n cael ei adfer a chynhyrchu £156k mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) am bob 100 hectar o gynefin, yn ystod y cam adfer. Hefyd, amcangyfrifir y byddai buddsoddi yn y gwaith parhaus o ofalu am a chynnal a chadw'r cynefin yn creu saith o flynyddoedd swydd am bob 100 hectar o fawndir wedi'i adfer a chynhyrchu £3,214 mewn GVA am bob hectar o gynefin, dros gyfnod o gan mlynedd. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn argymhell adfer o leiaf 55% o fawndir erbyn 2050. Disgwylir i adferiad 55% o fawndir greu tua 48,000 o swyddi dros dro yn ystod y cam adfer, a chreu 112,000 o flynyddoedd swydd er mwyn gofalu am a chynnal a chadw'r cynefinoedd adferedig. Yn yr un modd, byddai tua £2.5b o GVA yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf a £5.1b o GVA o ganlyniad i'r buddsoddiad gweithredol.

Ar gyfer y dadansoddiad **morfa heli**, lluniwyd cymhareb cost a budd a gasglodd am bob punt a fyddai'n cael ei buddsoddi y gellid disgwyl rhwng £0.24 a £1.31 mewn budd economaidd a chymdeithasol, gan ddibynnu ar faint o gostau a fyddai'n ofynnol ar gyfer y rhaglen adfer. Dangosodd y dadansoddiad cost a budd fod costau'r gwaith o adfer morfa heli'n amrywiol iawn gan ddibynnu ar faint y gwaith a lleoliad y cynefin. Gall y technegau a ddefnyddir i adfer morfa heli fod yn gostus a chymhleth o'i gymharu ag adfer mawndir a choetir. Fodd bynnag, disgwylir i'r buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau adfer gael effaith gadarnhaol ar greu gwaith gan greu rhwng 14 a 74 o swyddi dros dro am bob 100 hectar o gynefin adferedig, yn ystod y cam adfer. Amcangyfrifir hefyd y byddai'r buddsoddiad cyfalaf mewn adfer morfa heli'n cynhyrchu rhwng £88k a £4.8m mewn GVA am bob 100 hectar o gynefin, yn ystod y cam adfer. Gellid felly disgwyl i'r gwaith o adfer tua 4.5% o forfeydd heli'r DU greu hyd at 1,628 o swyddi dros dro a chynhyrchu hyd at £105m o GVA, yn ystod y cam adfer.

Lluniwyd cymhareb cost a budd o tua 2.79 ar gyfer prosiect **coedwigo** felly am bob punt a fyddai'n cael ei gwario, ar gyfartaledd gellid disgwyl ailfuddsoddiad o £2.79 mewn buddiannau economaidd a chymdeithasol. Byddai hefyd disgwyl i'r rhag-fuddsoddiad cyfalaf mewn prosiect coedwigo greu tua 25 o swyddi dros dro am bob can

hectar o goed a fyddai'n cael eu plannu, a chynhyrchu £1.2m o GVA yn ystod y cam adfer. Amcangyfrifir hefyd y byddai'r buddsoddiad parhaus mewn gofalu am a chynnal a chadw'r cynefin yn creu 6 blwyddyn swydd ychwanegol am bob 100 hectar o goed wedi'u plannu a chynhyrchu £314k o GVA y flwyddyn am bob hectar o gynefin, dros gyfnod o gan mlynedd. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi cynghori bod angen plannu o leiaf 30,000 hectar o goetir yn y DU. Pe bai'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu, byddai tua 7,500 o swyddi dros dro'n cael eu creu yn ystod y cam plannu a 1,800 o flynyddoedd swydd yn cael eu creu i ofalu am a chynnal a chadw'r coetiroedd newydd. Yn yr un modd, byddai tua £367m o GVA yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf a £95m o GVA o ganlyniad i'r buddsoddiad gweithredol.

ATODIAD 2: POTENSIAL CREU SWYDDI DRWY NATUR YNG NGHYMRU

CRYNODEB POTENSIAL CREU SWYDDI'R TUC (dwy flynedd)

Prosiect	Buddsoddiad cyhoeddus (£ biliynau)	Nifer y swyddi tymor byr yng Nghymru	Amcannifer y swyddi presennol (2018)	Nifer flynyddol yn dechrau prentisiaeth ar hyn o bryd	Capasiti addysg bellach
Cynlluniau ailgoedwigo	0.39	2,895	2,000	5-120	4,500 o bobl wedi cofrestru yn 2018/19 – i lawr o 8,065 yn 2012/13
Adfer amgylcheddol (gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd)	0.12	709			
Cefnogi ffermwyr i droi at amaethu organig	0.06	327	?	200-350	

--	--	--	--	--	--

CRYNODEB POTENSIAL CREU SWYDDI RSPB CYMRU (10 mlynedd)

Math o fuddsoddiad	Cyflogaeth (FTE)
Adfer a chreu cynefinoedd blaenoriaeth	1,000
Adfer a chreu nodweddion terfyn	1,151
Cyngor ar reoli tir amgylcheddol	87
Gwella a chreu mannau gwyrdd trefol	500
Plannu coetiroedd ychwanegol i gyrraedd carbon sero-net	167
Enillion bioamrywiaeth net	114
Rheoli rhywogaethau anfrodorol ymwthiol	20
Arolygon cadwraeth natur, monitro a gwerthuso	20
Cynllun datblygu twristiaeth drwy natur	3,875
Cyfanswm	6,934